Adroddiad ar

Cylch Ty Mair

Neuadd Maes Y Coed
Woodfield Avenue
Y Flint
Flintshire
CH6 5DU

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Ty Mair

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Ty Mair |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Gwyn Jones |
| Person â gofal | Louise Berry |
| Nifer y lleoedd | 44 |
| Ystod oedran y plant | Rhwng 2 oed a 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 33 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 6 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Dydd Gwener: 8.00am – 5.15pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Ionawr 2020 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 22/01/2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 19/05/2026 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

# Crynodeb

| **Thema** | **Barn** |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Digonol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

Hysbyswyd y darparwr nad yw’r lleoliad yn cydymffurfio gyda’r Rheoliadau, ni chyflwynwyd hysbysiad, ond mae’r rhain yn cael eu hadnabod fel meysydd i’w gwella, a dylai’r PC/UC roddi sylw iddynt.

## Argymhellion

A1 Manteisio ar gyfleoedd digymell i gymhwyso medrau rhifedd plant

A2 Sicrhau cyfleoedd rheolaidd i ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth plant o’r byd ehangach a’i amrywiaeth ddiwylliannol

A3 Mynd i'r afael â'r diffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae’r rhan fwyaf o blant yn cyfathrebu’n hyderus ac yn mynegi eu hunain yn effeithiol. Maent yn trafod eu gweithgareddau dyddiol yn frwdfrydig gydag ymarferwyr a’u ffrindiau. Mae'r rhan fwyaf yn archwilio'r ardaloedd chwarae tu fewn a thu allan yn llawn brwdfrydedd ac maent yn cael hwyl wrth ddilyn eu diddordebau eu hunain. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau dangos sut maent yn chwarae rôl fel trinwyr gwallt ac yn falch iawn o ddangos eu steil gwallt newydd.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn hapus, yn teimlo’n ddiogel ac yn ymgartrefu’n dda. Maent yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac maent yn setlo'n gyflym wrth gael eu cyfarch mewn ffordd gyfeillgar gan ymarferwyr. Maent yn barod iawn i ofyn i’r ymarferwyr am gymorth neu am gysur, pan fo’r angen yn codi. Mae’r rhan fwyaf o blant yn teimlo'n gyfforddus yng nghwmni’r ymarferwyr a‘n mwynhau eistedd ochr yn ochr â nhw wrth rannu stori.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â’u ffrindiau a gydag ymarferwyr. Maent yn mwynhau cymdeithasu ag eraill a gweithio fel tîm. Er enghraifft, wrth adeiladu cwrs rhwystrau gan ddefnyddio cerrig camu synhwyraidd a thynnu eu hesgidiau i brofi gwahanol weadau wrth iddynt gerdded ar draws. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau achlysuron cymdeithasol amser bwyd ac yn ymarfer defnyddio moesau da. Maent yn rhannu'r offer crefft, yn cymryd eu tro i reidio ar y beiciau ac yn cydweithio'n dda i dacluso offer chwarae.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn weithgar ac yn mynegi mwynhad yn eu chwarae a'u dysgu wrth ymchwilio yn eu hamgylchedd yn ddiogel. Maent yn defnyddio eu llais yn effeithiol i ddewis a datblygu eu syniadau’n bwrpasol. Maent yn cyflawni rhan fwyaf o’u tasgau’n annibynnol ac yn magu hyder dan anogaeth gadarnhaol ymarferwyr. Maent yn dewis gweithgareddau a phrofiadau dysgu a chwarae yn fwriadus acwrth eu bodd yn archwilio yn ytwba dŵr gan ddefnyddio rhwydi bach i ddal creaduriaid y môr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau defnyddio teganau electroneg ac yn eu rheoli’n fedrus i symud o amgylch yr ystafell.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn ymateb yn dda i gyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, mae “helpwr heddiw” yn rhoi'r cwpanau i'w ffrindiau fel y gallant helpu eu hunain i ddŵr neu laeth. Mae’r rhan fwyaf o blant yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau estynedig wrth iddynt ymgymryd ag ystod o weithgareddau a phrofiadau dysgu. Er enghraifft, maent yn canolbwyntio’n dda wrth osod y tedis bach lliw ar y bwrdd rhif cywir ac yn mwynhau amser tawel yn yr ardal gyfforddus yn darllen llyfrau.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol y rhan fwyaf o'r plant yn gryf. Maent yn chwarae'n annibynnol ochr yn ochr a'u ffrindiau ac yn dangos parch aeddfed tuag at gyfraniadau eraill. Mae rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. O ganlyniad, maent yn datblygu eu medrau llythrennedd, corfforol a chreadigol yn effeithiol, sy'n cefnogi eu dysgu a datblygiad eu medrau meddwl yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymateb i gyfarwyddiadau syml yn briodol. Maent yn cyfathrebu'n gynyddol hyderus, gan ddefnyddio geirfa syml yn y Gymraeg neu drwy ystumiau a gweithredoedd yn ôl yr angen. Trwy gyfleoedd dyddiol i ddefnyddio'r Gymraeg, maent yn datblygu hyder cynyddol fel dysgwyr ac yn gwneud ymdechion cynnar i'w defnyddion yn eu chwarae a'u gweithgareddau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn trin llyfrau'n hyderus, yn trafod eu cynnwys yn ystyrlon ac yn mwynhau gwrando ar straeon. Mae llawer yn gwneud marciau'n fwriadus gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau, ac yn egluro pwrpas eu hysgrifennu'n glir. O ganlyniad, mae llawer yn ymgolli'n dda yn eu profiadau ysgrifennu cynnar ac yn datblygu medrau cynnar llythrennedd yn effeithiol.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n gadarn. Maent yn symud yn hyderus yn yr awyr agored, er enghraifft wrth deithio ar feiciau a thrin offer mewn gwahanol ffyrdd. Mae llawer yn datblygu eu medrau digidol yn briodol, gan ddefnyddio technoleg syml i gefnogi eu chwarae a'u dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau creadigol medrus, er enghraifft wrth greu bwydydd o does a dylunio patrymau i efelychu croen dinosor.

Mae mwyafrif o'r plant yn arbrofi'n hyderus wrth chwarae gyda thywod a dŵr ac yn y gegin fwd. Maent yn dangos dyfalbarhad da wrth ymgysylltu â gweithgareddau, er enghraifft wrth adeiladu tyrrau uchel o flociau. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud penderfyniadau synhwyrol yn ystod eu chwarae, megis wrth ddewis dillad addas ar gyfer gweithgareddau awyr agored. Mae lleiafrif o'r plant yn datblygu medrau mathemategol cadarn ac yn dechrau defnyddio iaith fathemategol yn gywir ac mewn cyd-destun. Er enghraifft, maent yn dechrau enwi a chyfateb siapau 2D a chyfrif gwrthrychau hyd at 3 yn hyderus. Maent yn dechrau datblygu eu medrau datrys problemau yn briodol.

## Gofal a datblygiad:  Digonol

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn goruchwylio'r plant yn briodol ac yn gwybod sut i ymateb i unrhyw argyfwng. Maent  yn datblygu eu dealltwriaeth o'u rôl a'u cyfrifoldebau o ran hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a chadw'r plant yn ddiogel. Mae ymarferwyr yn annog plant i fod yn weithgar ac i chwarae yn yr awyr agored yn rheolaidd. Maent yn atgoffa'r plant yn gyson i olchi eu dwylo ac yn arwain gweithgaredd brwsio dannedd sy'n cefnogi plant i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn cefnogi y plant i gymdeithasu yn ystod amseroedd bwyd ac yn eu hannog i fwyta'n iach, gan sicrhau bod dŵr yfed ffres a llaeth ar gael o fewn cyrraedd. Maent yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd.

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau priodol ar gyfer cofnodi presenoldeb ymarferwyr a phlant. Fodd bynnag, nid oes cofnod o oriau presenoldeb y plant na seibiannau ymarferwyr. Mae ymarferwyr yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn gywir, er hyn nid ydynt yn cofnodi anafiadau sy'n bodoli eisoes nac yn sicrhau bod rhieni yn llofnodi ffurflenni sy'n cadarnhau eu bod wedi derbyn gwybodaeth am ddamweiniau ac anafiadau eu plant. Mae mwyafrif o ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol sy'n briodol i oedran y plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth addas o'r gweithdrefnau diogelu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb i'w ceisiadau'n amserol. Maent yn meithrin perthnasoedd hyfryd â'r plant ac yn canmol eu hymdrechion yn gyson, gan ddathlu eu llwyddiannau'n frwdfrydig. Maent yn ymateb i anghenion unigol y plant yn briodol, gan sicrhau amgylchedd cynhwysol. Mae ymarferwyr yn nodi anghenion dysgu ychwanegol plant yn gynnar ac yn gweithio'n agos gyda rhieni ac asiantaethau allanol i ddarparu cymorth cydlynol sy'n eu galluogi i wneud cynnydd briodol. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod cynlluniau gofal unigol plant ac asesiadau risg ar waith. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n briodol i feithrin hyder y plant, gan ymateb i'w dewisiadau a threfnu profiadau addas. Mae ymarferwyr yn olrhain cynnydd y plant yn briodol, ac maent yn dechrau defnyddio eu canfyddiadaui gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu a'u datblygiad. Mae ymarferwyr yn croesawu ymwelwyr i'r lleoliad er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Maent yn arddangos lluniau o'r plant yn dathlu gwyliau ac yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau pobi a chrefft.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth addas o ddatblygiad plant a gofynion y cwricwlwm. Maent yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio a darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n ymateb i ddiddordebau'r plant ac yn eu hysgogi i ymgysylltu'n dda â'u dysgu. Maent yn darparu cyfleoedd sy'n datblygu'r plant yn archwilwyr hyderus a gofalgar o fewn eu hamgylchedd. Er enghraifft, maent yn galluogi'r plant i dyfu blodau, archwilio a gofalu am drychfilod, ac i ystyried sut i ddangos parch a gofal at eraill.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau llythrennedd y plant. Maent yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau llafar Cymraeg drwy fodelu ac ailadrodd geirfa a phatrymau iaith safonol, ynghyd â chanu caneuon bywiog sy'n cefnogi datblygiad iaith yn effeithiol. Maent yn cymell y plant yn llwyddiannus i greu marciau gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau ac yn meithrin diddordeb mewn llyfrau a straeon yn barhaus. O ganlyniad, mae'r plant yn datblygu eu medrau darllen cynnar mewn ffordd hwylus, ystyrlon ac addas i'w hoedran.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau corfforol a chreadigol plant. Er enghraifft, maent yn annog plant i fentro ac arbrofi wrth ddefnyddio amrywiaeth o gerbydau chwarae ac yn eu cefnogi i drin toes a deunyddiau synhwyraidd yn greadigol.

Mae dulliau addysgu cadarn ymarferwyr yn arwain at gydweithio pwrpasol ymhlith y plant. Er enghraifft, maent yn cefnogi'r plant i gydweithio'n llwyddiannus wrth adeiladu waliau sefydlog gan ddefnyddio blociau o wahanol fathau. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd digymell i fodelu a datblygu medrau rhifedd y plant yn eu chwarae a'u gweithgreddau dyddiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau digidol cynnar y plant yn briodol ac yn adlewyrchu eu cam datblygu.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r gymuned leol i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Er enghraifft, maent yn gwahodd y frigâd dân i ymweld â'r lleoliad i godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch a gofal am y cynefin. Maent yn dechrau cynllunio profiadau addas i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i blant ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd ehangach ac i ddysgu am ddiwylliannau a chefndiroedd amrywiol.

Mae prosesau asesu'r lleoliad yn datblygu'n briodol. Ar y cyfan, mae ymarferwyr yn defnyddio arsylwadau rheolaidd yn briodol i nodi anghenion y plant ac i gynllunio camau nesaf mewn ffordd hyblyg sy'n ymatebol i'w datblygiad a'u diddordebau. Maent yn cefnogi dysgu'r plant yn dda drwy chwarae ochr yn ochr â nhw ac yn ymyrryd yn amserol i ymestyn ac atgyfnerthu'r dysgu. Yn yr arfer orau, mae ymarferwyr yn gofyn cwestiynau agored ac yn

rhoi digon o amser i blant feddwl a datrys problemau'n annibynnol. Er enghraifft, maent yn herio'r plant i ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau naturiol a chreadigol i greu 'mud pies blasus' yn y gegin fwd, a'u hannog i ystyried effaith amrywio'r cynhwysion.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd dysgu a chwarae sy'n ddiogel ac yn cynnig cyfleoedd buddiol i blant tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae arweinwyr yn sicrhau bod mesurau diogelwch effeithiol ar waith i reoli mynediad i mewn ac allan o'r lleoliad. Mae drysau wedi'u cloi ac mae cofnod o ymwelwyr yn cael eu cadw. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn cynnal gwiriadau iechyd a diogelwch dyddiol cyn i blant gyrraedd.Mae arweinwyr yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol sy'n amlinellu'n fras y camau i'w cymryd i leihau neu atal risg i blant. Maent wedi adnabod yr angen i wella eu trefniadau glanhau arferol ac yn dilyn y canllawiau cyfredol ar gyfer rheoli heintiau yn dda.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd dysgu a chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant yn dda. Mae hyn yn galluogi'r plant i symud o gwmpas yn rhydd, gan ddewis i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae gan blant fynediad at ystod eang ac amrywiol o offer chwarae adnoddau a dodrefn o feintiau priodol. Mae hyn yn cynnwys dewis eang o adnoddau naturiol i feithrin medrau'r plant yn llwyddiannus. Mae offer chwarae ac adnoddau wedi eu gosod yn gyfleus o fewn cyrraedd y plant, sy'n eu helpu i wneud penderfyniadau a dewisiadau priodol am yr hyn y maent eisiau eu defnyddio. Mae gan y lleoliad ardal addas i blant gadw eu heitemau personol sy'n creu ymdeimlad o berthyn. Mae arweinwyr yn sicrhau bod gwaith celf y plant yn cael ei arddangos yn ddeniadol ac mae hyn yn creu ymdeimlad o falchder ymhlith y plant. Mae amrywiaeth dda o lyfrau ar gael, ac maent yn cael eu harddangos yn drefnus, gan ddenu plant i'w darllen yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr wedi trefnu'r ardal chwarae awyr agored yn dda. Maent yn cynnwys amrywiaeth o offer, adnoddau a chyfarpar i feithrin medrau corfforol, creadigol a dychmygol y plant yn effeithiol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i ddysgu am y byd naturiol ac maent yn trefnu ardaloedd iddynt blannu a thyfu blodau i feithrin eu medrau garddio.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir a chadarn sy'n rhoi lles, hapusrwydd a diogelwch y plant wrth wraidd gwaith y lleoliad. Mae'r arweinydd yn cymryd rhan weithredol yn rheolaeth ddyddiol y lleoliad ac yn annog ymarferwyr i gefnogi ei gilydd yn dda. Mae hyn yn meithrin diwylliant tîm cadarnhaol, lle mae ymarferwyr cael eu gwerthfawrogi ac yn deall eu cyfrifoldebau.

Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn briodol ac yn cael ei adolygu'n reolaidd. Ar y cyfan, mae arweinwyr yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau statudol ar waith, ac yn cydymffurfio gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn unol â'r safonau gofynnol cenedlaethol a'r rheoliadau perthnasol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol. Maent yn gweithredu systemau goruchwylio ac arfarnu priodol sy'n gosod disgwyliadau clir ac yn cytuno ar dargedau proffesiynol ystyrlon ar gyfer ymarferwyr.

Mae arweinwyr yn cynnal amrediad addas o weithgareddau hunanwerthuso er mwyn adnabod yr elfennau sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae hyn yn cynnwys cynnal trafodaethau rheolaidd gydag ymarferwyr, mudiadau cefnogi ac anfon holiaduron i rieni a gofalwyr yn achlysurol. Mae arweinwyr yn ymateb yn gadarnhaol i gyngor allanol, er enghraifft wrth ddarparu cymorth cydlynol ar gyfer anghenion dysgu, ac wrth ddechrau mireinio prosesau arsylwi ac asesu.

Mae arweinwyr yn rheoli cyllidebau'n gyfrifol ac yn defnyddio grantiau'n bwrpasol i wella darpariaeth, er enghraifft prynu adnoddau newydd ar gyfer yr ardal tu allan sy'n hyrwyddo chwarae anturus.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn darparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant yn briodol mewn adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn. Maent ar gael ar ddechrau a diwedd bob dydd wrth i rieni gasglu eu plant, ac maent yn rhannu ystod o luniau ar gyfryngau cymdeithasol sy'n ddathliad o fwynhad y plant wrth iddynt gyflawni amrywiaeth eang o weithgareddau.

Mae trefniadau trosglwyddo yn gadarn. Mae plant yn ymweld â'r dosbarth meithrin ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar y cyd, gan gyfrannu'n llwyddiannus at drosglwyddiad esmwyth ac hyderus i'r cam nesaf o'u datblygiad.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/07/2026